

# CABINET CYNGOR GWYNEDD



## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>19 Gorffennaf 2022</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Menna Jones</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679708</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol 2021/22, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020/24</b>

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2021/22, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud i Gynllun Gweithredu'r 5 Amcan Cydraddoldeb y gweithiwyd tuag atynt yn ystod 2021-22 fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd yna. Mae adrodd yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru.

### 3 CYNNWYS

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb (sef y Cynllun Cydraddoldeb) wedi ei adnabod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor gan y Cabinet.

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol i Gynllun Cydraddoldeb 2020-24 ac mae'n adrodd yn erbyn y 5 amcan a nodir ynddo. Mae'r ddwy flynedd gyntaf yma wedi bod yn rai heriol. Rydym wedi gorfod newid ein ffyrdd o weithio ac efallai ymgymryd â gwaith newydd am dro. Mae hyn wedi dod a sialensiau ond hefyd cyfleon. O ganlyniad mae ein hamserlenni yn anorfod wedi llithro rhywfaint. Wedi dweud hynny rydym yn ffyddiog y bydd yr holl waith yn cael ei gwblhau o fewn oes y Cynllun.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ychwanegol yn unol â chanllawiau Deddf Cydraddoldeb 2020-24 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu..

#### 4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIUYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Diweddarwyd asesiad effaith cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb flwyddyn ddiwethaf yn sgil y sefyllfa newydd a'r data o gwmpas Covid-19. Nid ydym wedi gweld yr angen i'w addasu ymhellach flwyddyn yma.

#### **Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

##### **i) Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn creu ymrwymiadau gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi'r adroddiad, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

##### **ii) Swyddog Priodoldeb**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb